**Cyfarfod Cadeiryddion Grŵp Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru 15**
**Ffocws: Y Cynllun Adfer Natur**
**9 Gorffennaf 2015, Adeilad Llywodraeth Cymru, Aberystwyth**

**Yn bresennol:**

Matthew Quinn, Llywodraeth Cymru (Cadeirydd)
Dai Harris, Llywodraeth Cymru
Stephen Bladwell, RSPB (Cadeirydd Grŵp Arbenigol ar Rywogaethau)
Charles Morgan, RSPB (Cadeirydd Grŵp Ecosystem yr Ucheldir)
Jan Sherry, Cyfoeth Naturiol Cymru (Cyd-gadeirydd Grŵp Ecosystem Gweundir a Glaswelltir yr Iseldir)
Chris Tucker, Cyfoeth Naturiol Cymru (Cadeirydd Grŵp Ecosystem Coetir)
Pete Frost, Cyfoeth Naturiol Cymru (Cadeirydd Grŵp Ecosystem Dinesig)
Tristan Hatton-Ellis, Cyfoeth Naturiol Cymru (Cadeirydd Grŵp Ecosystem Dŵr Croyw a Chynrychiolydd Grŵp Ecosystem Gwlypdir)
Clare Burrows, Cyfoeth Naturiol Cymru (Cadeirydd Grŵp Ecosystem Tir Fferm Caeedig)
Angus Garbutt, CEH (Cadeirydd Grŵp Ecosystem Arfordirol)
Dave Thomas, Llywodraeth Cymru (Cynrychiolydd Grŵp Rhywogaethau Estron Goresgynnol)
Tracey Lovering, Partneriath Bioamrywiaeth Cymru/Cyfoeth Naturiol Cymru (Cydlynydd Cadeiryddion Grŵp Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru/ Arweinydd Prosiect Bylchau Tystiolaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru)
Tom Henderson, Llywodraeth Cymru

**Ymddiheuriadau:**

Gill Bell, Y Gymdeithas Cadwraeth Forol (Cadeirydd Grŵp Ecosystem Morol)
Pete Jones, Cyfoeth Naturiol Cymru (Cadeirydd Grŵp Ecosystem Gwlypdir)
Helen Buckingham, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol (Cyd-gadeirydd Grŵp Ecosystem Gweundir a Glaswelltir yr Iseldir)

**NODIADAU**

1. Bydd canllawiau drafft ar y Bil Cenedlaethau'r Dyfodol ar gael ym mis Medi (MQ)
2. Amserlen ymgynghoriad Dangosyddion Bil Cenedlaethau'r Dyfodol – ail hanner y flwyddyn; cyhoeddi ar ddechrau mis Ebrill 2016 fan bellaf.
3. Targed y Bwrdd Gweithredol – y broses gall Cadeiryddion ei defnyddio i gyfrannu at hwn. Nid yw Llywodraeth Cymru'n teimlo bod angen targedau ar gyfer hyn.
4. Cyfarfu Bwrdd Strategaeth Bioamrywiaeth Cymru'r wythnos ddiwethaf, ac ym mis Chwefror 2015 cyn hynny.
5. Disgwylir cyhoeddiadau am y Cynllun Datblygu Gwledig yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 13 Gorffennaf 2015.
6. Bydd datganiadau sefyllfa'n cael eu cynhyrchu gan Grwpiau Gorchwyl a Gorffen y Cynllun Adfer Natur. Bydd y rhain yn darparu camau gweithredu a chostau manwl.
7. Cynhelir ein cyfarfod nesaf o Gadeiryddion Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru nesaf ym mis Hydref 2015 (Gweler isod):

**Cyfarfod Cadeiryddion Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru – Hydref 2015**

**Ffocws: Cadeiryddion i ddarparu blaenoriaethau ar gyfer camau gweithredu wedi eu mapio a chyngor arbenigol i Fwrdd Strategaeth Bioamrywiaeth Cymru i alluogi datblygu camau gweithredu bioamrywiaeth wedi eu targedu a'u costio trwy raglen Cynllun Adfer Natur Cymru.**

ANGEN GWAITH GAN GRŴP ECOSYSTEM PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU CYN CYFARFOD MIS HYDREF 2015 (Gweler cam gweithredu 1.1 ac 1.2):

**Cam gweithredu 1.1** Mae meysydd blaenoriaeth i gael eu mapio, a dylid amlinellu camau gweithredu a gofynion penodol; fel y cwblhawyd eisoes ar gyfer y gwaith *mapio blaenoriaethau* (dan arweiniad Jan Sherry). Bydd mapiau blaenoriaethau presennol, a chanllawiau cysylltiedig yn llywio'r gwaith o ddewis y meysydd hyn, ond bydd gwybodaeth, bygythiadau ac ystyriaethau presennol (fel effeithiau newid hinsawdd), ac ystyriaeth o'r buddion pennaf i'w cyflawni yn llywio dewis terfynol pob maes, a'r camau gweithredu penodol a amlinellir ar gyfer pob un.

Bydd yn ofynnol i bob **grŵp ecosystem** ail edrych ar eu mapiau blaenoriaethau a chanllawiau a data cysylltiedig, i sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn cynrychioli blaenoriaethau'r grŵp. Byddwn yn troshaenu mapiau blaenoriaethau i ystyried lble y gellir cyflawni'r buddion mwyaf; canfod ble gall gwrthdaro posibl godi rhwng blaenoriaethau grwpiau;neu lble mae camau arwahanol yn cyflenwi i ardal fechan ond yn arwain at fudd uchel o ran bioamrywiaeth. Byddwn hefyd yn ystyried lble mae'r broses hon yn gadael bylchau mewn gweithredu i rai cynefinoedd/rhywogaethau ac yn cynnwys yr wybodaeth hon yn y canllawiau terfynol.

**Cam gweithredu 1.2** Noder Nid yw'r **Grwpiau Arbenigol ar Rywogaethau** a **Rhywogaethau Estron Goresgynnol** wedi darparu data mapio blaenoriaethau yn flaenorol. Mae angen i'r grwpiau hyn ystyried pa gam gweithredu blaenoriaeth sydd ei angen, a ble mae ei angen o ran camau gweithredu rhywogaethau/cynefin/ ecosystem ledled Cymru, mewn perthynas â blaenoriaethau eu grŵp. Caiff y data hwn ei gynnwys yng ngwaith cyfarfod mis Hydref.

**Unrhyw Fater Arall**

Hysbysiad am Gynhadledd y Byd SER (Society for Ecological Restoration) ar Adfer Ecolegol 23-27 Awst 2015, Manceinion http://www.ser.org/programs/world-conference - (TL)

**CYFARFOD CADEIRYDDION GRŴP PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU 15 - CAMAU GWEITHREDU**

| Rhif | Cam gweithredu | Pwy | Erbyn |
|---|---|---|---|
| **Camau gweithredu newydd erbyn 9 Gorffennaf 2015** | | | |
| 1. | 1. Cyfarfod nesaf Cadeiryddion Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru i'w drefnu ar gyfer mis Hydref 2015 – Ffocws: Blaenoriaethu camau gweithredu penodol sydd angen eu cynnwys yn y Cynllun Adfer Natur | TL<br><br>Pob Grŵp | - |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 2. Pawb i gwblhau gwaith y grŵp cyn cyfarfod mis Hydref. NODER. Nid yw'r Grwpiau Arbenigwyr ar Rywogaethau a Rhywogaethau Estron Goresgynnol wedi darparu data mbapio blaenoriaethau yn flaenorol. Mae angen i'r grwpiau hyn ystyried pa gam gweithredu blaenoriaeth sydd ei angen a lble mae ei angen o ran camau gweithredu rhywogaethau/cynefin/ ecosystem ledled Cymru, mewn perthynas â blaenoriaethau eu grŵp. Caiff y data hwn ei ymgorffori yng ngwaith cyfarfod mis Hydref. | Ecosystem/Rhywogaethau/ Cadeiryddion Rhywogaethau Estron Goresgynnol | |
| 2. | Dosbarthu'r rhestr cyllid craidd http://gov.wales/newsroom/environmentandcountryside/2015/150529-22m-of-funding-for-environment-and-sustainable-development-organisations-in-wales/?skip=1&lang=cy | TL | Cwblhawyd |
| 3. | Dosbarthu Adroddiad LIFE N2K, fel a gafodd ei ddarparu i Fwrdd Strategaeth Bioamrywiaeth Cymru; hefyd canlyniadau gweithdai LIF Caerdydd | TL/CLR | |
| 4. | Ail-ddosbarthu WBSB5 - Papur 3 Fframwaith Bioamrywiaeth Cymru a Chylch Gorchwyl Bwrdd Strategaeth Bioamrywiaeth Cymru | TL | |
| 5. | Dosbarthu Adroddiad Gweithdy Gwydnwch Shaun Russell | TL | |
| 7. | Gweithdy Gwydnwch – academyddion – awgrymu Dan Forman (Prifysgol Abertawe) i Shaun | TL | |
| 8. | Rhoi awgrymiadau ar gyfer prif siaradwr Cynhadledd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru i Sean McHugh | TL | Cwblhawyd |
| 9. | Dosbarthu'r Fframwaith Cyflenwi ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy | DH | |
| 10. | Trefnu cyfarfod ymweld i Gadeiryddion Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ag ardal dreialu newydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn y Rhondda – Mawrth 2016 | TL | |
| | **Camau gweithredu a barhawyd ddygwyd ymlaen o fis Chwefror 2014** | | |
| 11. | Grwpiau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru i roi cyngor i ochr dechnegol 3 phrosiect Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n cael eu treialu gan gynnwys y Ddyfi. Cyswllt: Patrick Green[1] | Pob Grŵp/Cadeirydd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru | Parhaus |
| 12. | Matthew i drafod â Ceri a all Cyfoeth Naturiol Cymru ail sefydlu swydd Ecolegydd Ucheldir. | MQ | |
| **Camau gweithredu parhaus i gadeiryddion (Eitemau sefydlog ar gyfer agendau cyfarfodydd grŵp)** | | | |

[1] Patrick.Green@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

| | | |
|---|---|---|
| 13. | **Aelodaeth y grwpiau:**<br>Diweddaru manylion aelodau'r grwpiau a'u hanfon at Gemma Light[2] a cc at TL[3] | Pob Cadeirydd Grŵp |
| 14. | **Prosiect Bylchau Tystiolaeth:**<br>http://www.biodiversitywales.org.uk/WBP-Evidence-Gaps-Project<br>Pob cadeirydd i rannu adborth ar y bwrdd bylchau tystiolaeth gyda'u grwpiau, a ddarperir gan yr Athro Mike Bruford (Gweler colofnau I.J.K yn y *Gofrestr Bylchau Tystiolaeth* Tach V2 a:<br>1) Rhoi sylw i sylwadau/gwybodaeth ddilynol/dolenni cysylltiedig. Efallai y bydd angen y canlynol:<br>• trafod bylchau penodol gyda chysylltiadau newydd fel yr awgrymwyd;<br>• adolygu'r bwlch yng ngoleuni tystiolaeth/papurau presennol mae Mike wedi eich cyfeirio chi atynt;<br>• Adolygu'r bwlch (os yn addas ar gyfer ymchwil) gan ddilyn y canllawiau *Ysgrifennu Cwestiynau ar gyfer Ymchwil Wyddonol* (ar dudalen y prosiect ar y we).<br>• Rhannu bwlch ar raddfa fawr yn is gwestiynau cyfansoddol a allaint fod yn addas ar gyfer prosiectau cysylltiedig ar wahân.<br>2) Ail edrych ar flaenoriaethau bylchau tystiolaeth grŵp ac amlygu'r rhain ar y gofrestr bylchau tystiolaeth (coch= uchel, oren= canolig, melyn= isel).<br>3) Cytuno ar eich arweinydd grŵp prosiect ymchwil ar gyfer pob bwlch tystiolaeth blaenoriaeth uchel (os yn addas ar gyfer ymchwil); yr arweinydd i ddatblygu a chyflwyno Cynnig Prosiect cyflawn ar gyfer pob prosiect ymchwil i TL[2] | Pob Cadeirydd Grŵp<br><br>Pob Cadeirydd Grŵp<br><br>Pob Cadeirydd Grŵp |
| 15. | **Gwe dudalennau Grŵp Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru:**<br>Ysgrifenyddiaeth/cadeiryddion i ddiweddaru tudalennau'r grŵp ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru[4]. Y tudalennau i gynnwys rhestr aelodau'r grwpiau, agendau cyfarfodydd/camau gweithredu/rhaglenni gwaith/prosiectau gan gynnwys rhai wedi eu cyllido gan REF (Cronfa Gwydnwch Ecosystemau)/ Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth cynefinoedd o dan grŵp/mapio blaenoriaethau/manylion cyswllt a dolenni defnyddiol.<br>Anfon diweddariadau tudalennau at Sean McHugh[5]. | Pob cadeirydd grŵp |
| 16. | **Mapio blaenoriaethau**:<br>1. Grwpiau i drefnu cyfleoedd ymgysylltu'n lleol â phartneriaethau/rhwydweithiau/fforymau bioamrywiaeth i rannu data mapio blaenoriaethau a cheisio cyfleoedd i gyflenwi camau gweithredu'n lleol ac yn strategol. Dylid estyn gwahoddiad i'r Grŵp Arbenigol ar Rywogaethau roi cyflwyniad mewn unrhyw ddigwyddiad a drefnir. Ysgrifenyddiaeth i anfon copïau o'r trefniadau at Tracey.<br>2. Gwirio a oes angen diwygiadau naill ai i'r maes neu'r camau gweithredu a restrir ar set ddata mapio blaenoriaethau'r grŵp. Arweinydd dirprwyedig i gasglu unrhyw newidiadau a darparu mapiau GIS diwygiedig terfynol, a chamau gweithredu cysylltiedig, i Jan Sherry[6] | Pob Cadeirydd Grŵp |

[2] Gemma.Light@Wales.GSI.Gov.UK
[3] Tracey.Lovering@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
[4] http://www.biodiversitywales.org.uk/Gr-p-Arbenigol-ar-Rywogaethau
[5] smchugh@wtwales.org
[6] Jan.Sherry@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

| | | |
|---|---|---|
| 17. | **Trefnu cyfarfodydd:** Ysgrifenyddiaeth i ddarparu dyddiadau, agendau, camau gweithredu, diweddariadau ar gyfer/gan yr holl gyfarfodydd grŵp i dîm Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru[7] a Thîm Polisi Bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru[8]. | Cadeirydd pob grŵp Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru |

Tracey Lovering
Cydlynydd cadeiryddion grŵp Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru
26/08/15
Tracey.Lovering@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

[7] Tracey.Lovering@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk h.york@wtwales.org smchugh@wtwales.org
[8] Jenni.Hartley@wales.gsi.gov.uk Tom.Henderson@wales.gsi.gov.uk